

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd dros y rhwydwaith am 9.30 ar 19 Mai 2015

Yn bresennol:

Aelodau: Geraint James (Cadeirydd)

Archwilwyr: Jonathan Rees, KTS Owens Thomas (Archwilwyr mewnol)
Carol Warburton, KTS Owens Thomas (Archwilwyr mewnol)

Staff y Coleg: Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd
Nia Brown, Swyddog Datblygu

Ymddiheuriadau: Yr Athro Iwan Davies
Dr Rhodri Llwyd Morgan
Gareth Pierce (aelod cyfetholedig)

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso ac ymddiheuriadau	1.1 Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod dros y rhwydwaith. 1.2 Nodwyd ymddiheuriadau, fel uchod. 1.3 Nodwyd nad oedd yr Athro Catrin Thomas yn aelod o'r Bwrdd na'r Pwyllgor bellach a nodwyd diolch ffurfiol iddi am ei chyfraniad. 1.4 Gan nad oedd cworwm yn bresennol penderfynwyd cynnal cyfarfod gyda'r archwilwyr mewnol a chyfleu unrhyw argymhellion i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 17 Mehefin 2015.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Nid oedd datganiadau o ddiddordeb.		
3. Cofnodion y Cyfarfod	3.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
Blaenorol	gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2015, fel cofnod cywir.		
4. Aelodaeth	<p>4.1 Yn dilyn ymddiswyddiad yr Athro Catrin Thomas adroddwyd y bydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr yn argymhell enw i'w gwahodd fel aelod o'r pwyllgor.</p> <p>4.2 Argymhellwyd newid y cylch gorchwyl i gynnwys tri aelod cyfetholedig, i'w cymeradwyo gan y Bwrdd.</p>	Penodi aelodau	Erbyn Hydref 2015
5. Rheoli Risg: Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol	<p>5.1 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar Reoli Risg gan Jonathan Rees.</p> <p>5.2 Eglurwyd bod yr adolygiad yn canolbwyntio ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesu lefel y swyddogaeth a ddarperir gan y system rheoli risg bresennol a sut mae hyn yn helpu'r Coleg wrth gofnodi a monitro risgiau. • Asesu dealltwriaeth rheolwyr perthnasol y Coleg o risgiau, a'u gallu i reoli risg yn effeithiol. • Adolygu a chyflwyno sylwadau ar y Strategaeth Rheoli Risg Gorfforaethol. • Adolygu'r rheolaeth weithredol ar risg, gan gynnwys gweithdrefnau adrannol ar gyfer cofnodi, monitro a rheoli risgiau gweithredol. <p>5.3 Canfuwyd bod y gweithdrefnau rheoli risg yn addas ar gyfer sefydliad o faint y Coleg ond y dylid creu dogfennaeth ffurfiol ychwanegol i atgyfnerthu gofynion yr archwilwyr. Yn sgil hynny dyfarnwyd sicrwydd cymedrol yn yr adroddiad ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Strategaeth rheoli risg – argymhell creu dogfen ar strategaeth gyda chefnogaeth yr archwilwyr mewnol i'w gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr • Cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio – newid enw'r pwyllgor, addasu ac ychwanegu at yr amcanion a chynyddu'r aelodaeth • Adfer wedi trychineb a chysondeb busnes – mae 	<p>Archwilwyr mewnol i gynghori'r swyddogion</p> <p>Adolygu'r cylch gorchwyl</p> <p>Cyfarfod wedi'i drefnu i lunio cynllun</p>	<p>Erbyn Medi 2015</p> <p>Erbyn 17 Mehefin 2015</p> <p>Gorffennaf 2015</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>angen cynllun busnes ac adfer wedi trychineb ar gyfer y Coleg i'w gymeradwyo gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cofnodi risg –canmolwyd arfer da o gofnodi risg, argymhellwyd yr angen i ychwanegu allwedd i'r gofrestr, cadw hanes a nodi esboniadau. Cytunwyd i sefydlu Pwyllgor Rheoli Risg chwarterol. • Monitro risg - argymhell neilltuo adnoddau strategol a gweithredol i reoli risg. Nodwyd bod y Coleg eisoes yn cyfeirio risgiau i'r Pwyllgor Archwilio. • Risg a gwneud penderfyniadau – angen addasu fformat papurau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr a'r Pwyllgor Archwilio er mwyn nodi risgiau ynghlwm â phob mater a drafodir. Cytunwyd i drefnu cyfarfod rhwng y swyddogion i drafod fformat tudalen flaen papurau pwyllgor o 2015/16 ymlaen. <p>5.4 Yn sgil cwestiwn gan y Cadeirydd cadarnhawyd bod trefniadau yswiriant yn bodoli ar gyfer delio ag argyfwng.</p> <p>5.5 Derbyniwyd yr adroddiad a diolchwyd yr Archwilwyr Mewnol yn ffurfiol am eu gwaith.</p>	<p>Gweithredu</p> <p>Trefnu Pwyllgor Rheoli Risg chwarterol</p> <p>Trefnu cyfarfod i gadarnhau fformat papurau</p>	<p>Medi 2015 ymlaen Haf 2015</p> <p>Gorffennaf 2015</p>
6. Adroddiad Cynnydd yr Archwilwyr Mewnol	<p>6.1 Cyflwynwyd adroddiad cynnydd ar raglen waith 2014/15 yr Archwilwyr Mewnol gan Carol Warburton.</p> <p>6.2 Argymhellwyd y gallai'r archwilwyr barhau â'r cynllun i adolygu trefniadau Marchnata a Hyrwyddo ond i gynnal yr adolygiad ar reolaeth gyllidebol, monitro a'r effaith ar y Cynllun Strategol pan fydd sefyllfa gyllidol y Coleg yn y dyfodol yn gliriach.</p>	<p>Archwilwyr Mewnol i adolygu Marchnata a Hyrwyddo</p>	<p>Erbyn Hydref 2015</p>
7. Cyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer Chwarter 3 2014/15 (PA/15/02/07)	<p>7.1 Cafwyd eglurhad ar Gyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer chwarter 3 2014/15 gan y Cofrestrydd.</p> <p>7.2 Cafwyd trafodaeth gyffredinol ar y cyfrifon a chrybwyllwyd bod y ffigyrau yn adlewyrchu polisi o</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>7.3 oruchwylio gwariant yn ofalus yn wyneb y sefyllfa gyllidol bresennol. Nodwyd bod llai o wariant ar gyllidebau gweinyddiaeth gyffredinol a llywodraethiant. Eglurodd y Cofrestrydd bod y system gyllid newydd wedi cynorthwyo gyda'r arbedion yn y cyllidebau unigol gan fod modd tracio'r gwariant yn fwy gofalus. Nodwyd y bydd modd cymharu'r cyllidebau o flwyddyn i flwyddyn o eleni ymlaen.</p> <p>7.4 Derbyniwyd y cyfrifon.</p>		
8. Cyllideb y Coleg 2015/16	<p>8.1 Cyflwynwyd Cyllideb y Coleg ar gyfer 2015/16 gan y Cofrestrydd. Eglurwyd nad oedd y gyllideb wedi newid ers y drafft a gyflwynwyd i'r pwyllgor ar 17 Mawrth 2015.</p> <p>8.2 Nodwyd y cyflwynir y Gyllideb i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 17 Mehefin 2015.</p>	Cyflwyno'r Gyllideb i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr	17 Mehefin 2015
9. Materion yn Codi	<p>9.1 <u>Eitem 5: Adroddiad gwarchod data.</u> Nodwyd bod yr argymhellion a'r pwyntiau gweithredu a gofnodwyd yng nghyfarfod 17 Mawrth 2015 yn weithredol.</p> <p>9.2 <u>Eitem 7.3: Dyfodol Cyllideb y Coleg.</u> Eglurwyd nad oedd diweddariad ynghylch grant y Coleg. Serch hynny, cadarnhawyd bod y Llywodraeth wedi cytuno i gyllido'r Ysgoloriaethau Israddedig y tu hwnt i 2017.</p> <p>9.3 <u>Eitem 7.5: REF.</u> Nodwyd bod y Bwrdd Academiaidd wedi trafod sefyllfa'r Ymarferiad Ymchwil a'r Coleg yn ei gyfarfod ar 13 Mai 2015. Bydd y mater yn cael ei drafod eto yn y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 17 Mehefin 2015.</p> <p>9.4 <u>Eitem 8: Pensiwn USS.</u> Cafwyd diweddariad ar sefyllfa bensiwn USS gan y Cofrestrydd. Cyfeiriwyd at y ffaith fod ymgynghoriad ag aelodau'r cynllun pensiwn yn yr arfaeth ac na fyddai'r newidiadau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2016 yn effeithio'n ormodol ar y buddiannau i staff y Coleg. Bydd goblygiadau cost i'r Coleg o ran cyfraniad</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	cyflogwr, gan fod y cynnig yn cynnwys cynyddu'r cyfraniad hwnnw o 16% i 18% Bydd goblygiadau hefyd i gyllideb y cynllun staffio gan fod y grantiau yn cynnwys costau pensiwn ar gyfer 118 o ddarlithwyr.		
10. UFA	10.1 Nid oedd unrhyw fusnes arall.		
11. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf	11.1 Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd dros y rhwydwaith fideo ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2015/16: <ul style="list-style-type: none"> • 20 Hydref 2015, 9.30-12.30 • 9 Chwefror 2016, 9.30-12.30 • 17 Mai 2016, 2.00-5.00 		